# Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod Microsoft Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 17 Mehefin 2024 |
| **Aelodau yn bresennol:** | Yr Athro Rhys A. Jones, Aelod Bwrdd CNC (Cadeirydd)<br>Dennis Matheson, TFA<br>Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru<br>Brian Stewart, Llywodraeth Cymru<br>Sarah Jones, Dŵr Cymru Welsh Water<br>Sarah Hetherington, CNC<br>David Ball, AHDB<br>Nichola Salter, CNC<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Gareth Parry, UAC<br>Ruth Johnston, CNC<br>Marc Williams, CNC<br>Russ Thomas, Hybu Cig Cymru<br>Kate Snow, United Utilities<br>Fraser McAuley, CLA<br>Gail Davies-Walsh, Afonydd Cymru |
| **Mynychwyr ychwanegol:** | Sarah Coe, CNC<br>Inoka T. Manatunga, CNC |
| **Ymddiheuriadau:** | Chris Mills, Afonydd Cymru<br>Einir Williams, Cyswllt Ffermio<br>Creighton Harvey, CFF<br>Matt Walters, Llywodraeth Cymru<br>Michelle Griffiths, NRW |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

1. Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (Aelod Bwrdd CNC a Chadeirydd Is-Grŵp WLMF) bawb i gyfarfod Microsoft Teams a nododd ymddiheuriadau.

2. *Sylwch fod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben cadw'r cofnodion a bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.*

3. Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas ag eitemau agenda.

- DS: Mae holl aelodau'r grŵp wedi llenwi ffurflenni datganiadau o fuddiant eisoes ond dylent hefyd ddatgan os oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

## Eitem 2. Adolygiad o’r cofnodion a chamau gweithredu

4. Cadarnhaodd Rhys unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi cael eu hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan y grŵp, y byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad atynt. Felly, mae'n bwysig bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

5. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Mai 2024. Derbyniwyd awgrymiadau am addasiadau gan Creighton Harvey, CFF, yn gofyn i gynnwys ystadegau ar gyfer ffermydd sy’n aelodau o gynlluniau sicrwydd, ynghyd â manylion ynglŷn â lleoliad y ffermydd ychwanegol a ychwanegwyd at y rhestr archwilio o ganlyniad i achosion diweddar o lygredd. Bydd Bronwen yn cadarnhau’r ffigurau cywir gyda Nicola Mills, CNC cyn eu cynnwys yn y cofnodion.

6. Derbyniodd y grŵp gofnodion mis Mai fel cofnod cywir.

7. Rhannodd Bronwen y camau gweithredu sydd heb eu cyflawni a rhoddwyd diweddariadau llafar lle bo’n bosibl. Nodwyd y diweddariadau canlynol:

   - Camau gweithredu heb eu cyflawni ar gyfer Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru ynglŷn â’r Mesurau Amgen a’r broses adolygu 4 blynedd - bydd y rhain yn cael sylw yn yr eitem yn nes ymlaen yn ystod y cyfarfod.

   - Pwynt Gweithredu Mai 01 - Suzy Lawn, CNC i rannu'r fethodoleg ar gyfer yr Adolygiad o Faetholion gyda'r grŵp hwn.

     - Mae Suzy wedi cynghori y bydd lansiad ffurfiol yr Adolygiad o Faetholion yn digwydd ar ôl yr Etholiad Cyffredinol.

   - Camau gweithredu heb eu cyflawni yn ymwneud â’r diweddariad ar y Tîm Rheoli Llygredd Amaethyddol - mae cydweithwyr CNC yn gweithio ar yr Adroddiad Cryno a fydd yn cynnwys y data y gofynnwyd amdano. Ar ôl cael ei gymeradwyo, bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gydag Is-grŵp WLMF pan fydd ar gael.

## Eitem 3. Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA

8. Arweiniodd David Ball, AHDB drafodaeth grŵp ar Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA. Cyflwynwyd yr Adroddiad i'r grŵp i ddechrau ym mis Chwefror 2024. Roedd hwn yn gyfle i'r grŵp drafod cynnwys yr adroddiad gan gynnwys yr argymhellion a nodi a oes camau gweithredu penodol ar gyfer y grŵp neu sefydliadau unigol.

9. Eglurodd Marc Williams, CNC fod yr adroddiad wedi ei gomisiynu gan gyn Grŵp Goruchwylio Afonydd ACA o ganlyniad i Uwchgynhadledd y Prif Weinidog. Anfonwyd yr adroddiad at aelodaeth yr Uwchgynhadledd ym mis Chwefror. Cynhelir yr Uwchgynhadledd nesaf yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2024 a fydd yn debygol o fod â thema amaethyddiaeth, er nad yw Cangen Dŵr

Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r agenda hyd yn hyn. Nid yw'r adroddiad wedi'i drafod mewn Uwchgynhadledd flaenorol, felly efallai y bydd hyn yn cael ei godi ym mis Gorffennaf.

10. Rhoddodd David drosolwg a chrynodeb o'r adroddiad. Roedd Rhys yn awyddus i'r grŵp adolygu'r argymhellion o fewn yr adroddiad fel cam cychwynnol i nodi os oedd elfennau penodol y gallai'r grŵp ychwanegu eu cefnogi (e.e., cymorth ymarferol, hyrwyddo ac ati).

11. Dywedodd Dennis Matheson, TFA ei bod yn dda bod y grŵp hwn wedi cael golwg ar yr adroddiad a chael cyfle i'w drafod. Yn y gorffennol, ni fu unrhyw integreiddio rhwng grwpiau tebyg eraill sydd wedi cael eu sefydlu i edrych ar y mathau o bethau yr ydym yn canolbwyntio arnynt. Soniodd Dennis fod y Prif Weinidog wedi sefydlu Grŵp Carbon ac awgrymodd y dylent hefyd integreiddio ag Is-grŵp WLMF oherwydd ein bod wedi bod yn edrych ar bob math o lygredd.

12. Atgoffodd Gareth Parry, UAC y grŵp, os ydynt am gymeradwyo'r adroddiad cyn yr Uwchgynhadledd nesaf, y bydd angen iddo gael sgwrs gyda Phwyllgor Defnydd Tir UAC. Nododd Gareth fod yr adroddiad yn sôn am ddata a'r gobaith y byddai'r SFS yn helpu i lenwi bylchau mewn data. Fodd bynnag, mae'n faes cymhleth iawn yn enwedig o ystyried datblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac adolygiad 4 blynedd o'r CoAPR. Mae rhai pryderon ynghylch sut y bydd y data yn cael ei gasglu drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac os/sut y caiff ei rannu. Mae'r data yn eiddo i'r ffermwr, ac mae hwn yn fater sensitif iawn. Nododd Gareth fod angen sefydlu sylfaen dystiolaeth fwy cywir, sy'n ehangach nag amaethyddiaeth ac sy'n fwy cyffredinol ar gyfer dŵr. Roedd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar amaethyddiaeth, ond efallai y dylid datblygu adroddiadau a phrosesau tebyg gyda sectorau eraill cyn yr Uwchgynhadledd Llygredd afonydd.

13. Cyflwynodd Gail Davies-Walsh, Afonydd Cymru ei hun i'r grŵp. Soniodd Gail fod yna lawer iawn o groesi. Mae cyfleoedd yn yr adroddiad ac mae nifer o dasgau eisoes ar waith neu'n cael eu harwain drwy grwpiau eraill - yn sicr mae darnau o waith ac adroddiadau wedi'u cyhoeddi eisoes ar gyfer sectorau eraill. Roedd yr Uwchgynhadledd Afonydd yn canolbwyntio ar y diwydiant dŵr yn y lle cyntaf, a chais gan yr Uwchgynhadledd Afonydd oedd bod gwaith hefyd yn cael ei wneud gyda'r sector amaethyddol. Mae Tasglu Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwell Ansawdd Dŵr Afonydd wedi gwneud adolygiad o'r holl effeithiau eraill i ansawdd dŵr afonydd gan sectorau eraill hefyd. Ar hyn o bryd rydym yn aros am gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch ble y gallwn ni godi'r effeithiau o'r sectorau eraill hynny ac a oes angen sefydlu grŵp arall neu a allant ddod yn rhan o argymhellion y Tasglu. O safbwynt gwirfoddol, mae sectorau/meysydd eraill sydd hefyd angen sylw, ac mae angen ceisio deall ble y bydd y rhain yn cael eu codi drwy'r broses Cynllun Rheoli Basn Afon a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, neu a fyddwn ni'n eu hamsugno fel rhan o'r Tasglu.

14. Roedd Rhys yn cydnabod bod llawer o waith arall yn digwydd ac y byddai'n dda gweld organogram i fapio'r gwahanol grwpiau sy'n edrych ar lygredd ac ansawdd dŵr.

15. Soniodd Gail fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad ar eu holl fforymau a chyfarfodydd, ac rydym yn aros am yr allbwn ac a fyddant yn addasu rhai o'r Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer y grwpiau presennol.

16. Atgoffodd Rhys y grŵp fod CNC hefyd yn cynnal adolygiad o'i fforymau. Mae arolwg rhanddeilion/aelodau yn mynd i gael ei anfon allan at aelodau'r gwahanol fforymau i

archwilio unrhyw faterion a chael safbwynt gan yr aelodau eu hunain. Mae'r rhain yn ddau adolygiad fforwm ar wahân sy'n cael eu cynnal gan Lywodraeth Cymru a CNC.

17. Dywedodd Marc fod Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA yn canolbwyntio ar amaethyddiaeth er mwyn deall rhai o'r materion sy'n wynebu'r sector. Roedd Zoe Henderson (cyn Aelod Bwrdd CNC a chyn-Gadeirydd Is-grŵp WLMF) yn awyddus i sicrhau bod y negeseuon allweddol yn cael eu tynnu at ei gilydd. Fodd bynnag, datblygwyd hyn dros amser i gynnwys argymhellion o fewn yr adroddiad. Mae CNC yn gwneud gwaith gyda sectorau eraill, er enghraifft gweithio gyda'r diwydiant dŵr ac adolygu trwyddedau. Mae gwaith arall hefyd yn cael ei wneud gan sectorau eraill y mae CNC yn ymgysylltu â nhw. Soniodd Marc ei fod yn ymwneud â gwaith mewnol sy'n edrych ar gysylltu'r holl grwpiau amrywiol - rhannodd Marc ei sgrin i arddangos organogram a grëwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd yn nodi amryw o grwpiau eraill. Darparodd Marc grynodeb llafar o bob grŵp.

18. Cytunodd David gyda phwyntiau a wnaed yn gynharach ynghylch sensitifrwydd perchnogaeth data a rhannu data, yn enwedig os mae ffermwyr yn cyflwyno data fel rhan o gynllun heb wybod ar gyfer beth y gellid ei ddefnyddio. Mae angen cydnabod sensitifrwydd, ond yr amcan cyffredinol yw cael gwell tystiolaeth gan y byddai hynny'n ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o'r ffynonellau er mwyn gallu targedu yn hytrach na defnyddio gwaith modelu. Ceir sawl ffordd i ddylanwadu ar ymddygiad er enghraifft cymorth ariannol, addysg, gwybodaeth am arferion gorau ac ati. Atgoffodd David y grŵp fod y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol wedi'u cyflwyno yn 2021 ac y byddant yn cael eu gweithredu'n llawn ym mis Awst 2024. Mae'r gofynion terfynol yn dod i rym yn fuan, felly byddai unrhyw adolygiad o effaith bosibl y Rheoliadau hynny ar lygredd ffosffad yn gynasmerol gan nad yw holl elfennau'r rheoliadau wedi cael eu gweithredu hyd yma. Efallai y bydd gwerthuso effaith y Rheoliad yn broses hirdymor, yn enwedig yr effaith ar ffosffad.

19. Soniodd Sarah Jones, DCWW am y gwaith y mae hi wedi bod yn gysylltiedig ag ef ynglŷn â Phrosiect Dalgylch Arddangos Teifi. Mae awydd cryf i gydweithio ac mae pwyntiau yn yr adroddiad sy'n debyg i'r hyn sy'n cael ei drafod megis heriau a chyfleoedd posibl ar gyfer yr afon Teifi - efallai bod angen clymu hyn i gyd at ei gilydd. Er enghraifft, gallech dreialu rhai o'r pethau hyn, fel gweithdai i ddod i ddeall yr heriau o ran casglu data, beth fyddai pobl yn gyfforddus ag ef a sut y gellir ei efelychu mewn mannau eraill. Dywedodd Rhys yn sicr bod rhai o'r argymhellion, yn enwedig y rhai mewn perthynas ag ymchwil, arloesi a newid ymddygiad, yn debyg i bethau sydd wedi'u trafod yng nghyd-destun trafodaethau cychwynnol ar gyfer Prosiect Arddangos Teifi. O fewn y cynigion cychwynnol, mae un o'r ffrydiau gwaith yn canolbwyntio ar ymyriadau dan arweiniad ffermwyr ac un arall yn canolbwyntio ar newid ymddygiad sydd hefyd yn cyd-fynd â rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

20. Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru fod rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad hefyd yn cysylltu ag Adroddiad Interim Is-Grŵp WLMF. Ceir tebygrwydd sy'n adlewyrchu'r ffaith bod yr Adroddiad Interim yn ddarn o waith cadarn a chynhwysfawr iawn a adeiladwyd ar gonsensws. Roedd yn cydnabod nad oes un ateb syml ond yn hytrach cyngor da a sicrhau bod ffermwyr yn derbyn cymhelliant, buddsoddiad a chefnogaeth briodol i'w galluogi i wneud newidiadau. Soniodd hefyd am alluogi technoleg a dulliau arloesol i ddarparu atebion. Mae'r holl bethau hyn yn bwysig iawn ond fel ffermwr, ar hyn o bryd mae'n dirwedd wirioneddol gymhleth. O ran cyngor ac arweiniad, dywedodd Rachel fod NFU Cymru yn ystyried mai rôl Cyswllt Ffermio fyddai hynny fel siop un stop, ond hefyd o ran targedu negeseuon, yn enwedig mewn

dalgylchoedd ACA sy’n methu, a gwneud rhaglenni gwaith dwys iawn o fewn yr ardaloedd hynny. Cyswllt Ffermio yw'r darparwyr cyngor cydnabyddedig ac mae ganddo frand cryf iawn, felly mae dull wedi'i dargedu yn y dalgylchoedd hynny sy'n methu yn rhywbeth y byddem yn cefnogi'n gryf.

21. **Argymhelliad 1a - Cyngor ac Arweiniad:** Dywedodd David fod yr adroddiad yn cydnabod Cyswllt Ffermio fel lle canolog sy'n darparu cyngor ac arweiniad pwysig ar hyn o bryd, ond y prif argymhelliad yw y dylid ei annog i barhau. Dylai Cyswllt Ffermio barhau i gael cefnogaeth Llywodraeth Cymru i wneud eu gwaith pwysig.

22. Dywedodd Fraser McAuley ei fod yn cytuno â llawer o'r argymhellion, fodd bynnag, byddai angen iddo hefyd geisio cymeradwyaeth gan y Pwyllgorau CLA mewnol i gymeradwyo'r adroddiad yn llawn. Dywedodd Fraser y byddai'n ddefnyddiol edrych ar rai o'r amserlenni neu'r mapiau ffordd posibl o ran cyflawni'r argymhellion — yn benodol ynghylch cyngor ac arweiniad, sicrhau mwy o gynghorwyr FACTS cymwys  a datblygu porth cenedlaethol ar gyfer gwaith prosiect hyfforddi grant. Mae angen i ni ddeall yr hyn sydd ei angen i gyrraedd yno, faint o amser y byddai hynny’n ei gymryd, faint o arian sydd ei angen, ac a oes awydd gan Lywodraeth Cymru (neu eraill) i gefnogi hynny.

23. Roedd Rhys yn cydnabod y pwyntiau allweddol hyn, a chafwyd trafodaeth ynghylch pwy fyddai’n gyfrifol am ofyn y cwestiynau pwysig hynny - gallai’r grŵp hwn o bosibl ychwanegu pwysau at y pwyntiau eglurder hynny. Awgrymodd Fraser y gallai ddilyn ymlaen o geisio cymeradwyaeth ar gyfer yr argymhellion cyffredinol ac yna gallai'r grŵp hwn geisio eglurder ynghylch yr amserlenni.

24. Cofiodd Marc fod Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA yn trafod amserlenni a phwy sy'n gyfrifol, ond roedd yn anodd iawn nodi pwy allai fynd â rhai o'r argymhellion ymlaen. Y prif nod oedd nodi'r argymhellion gan eu bod yn allweddol i wella'r sefyllfa. Efallai bod yr amserlenni yn rhywbeth i'w egluro gyda Changen Dŵr Llywodraeth Cymru.

25. Dywedodd David y byddai’n ddefnyddiol ceisio cael rhywfaint o ymrwymiad a p’un a oes gan Lywodraeth Cymru amserlen neu raglen weithredu. Awgrymodd Rhys y gallai'r Is-grŵp ofyn rhai o'r cwestiynau hynny a gofyn am eglurhad a fyddai'n arwain, gobeithio, at ryw fath o ymrwymiad i weithredu'r argymhellion — mae amserlenni ac adnoddau hefyd yn allweddol. Dywedodd David nad yw'r elfen gyngor a'r arweiniad yn arbennig o ddadleuol ond gallai fod yn anodd cael eglurder ar rai o'r argymhellion eraill megis cymorth ariannol ar gyfer seilwaith fferm.

26. Cododd Gareth bryderon ynghylch amserlenni, peidio â gwneud cynnydd, a chael yr un sgyrsiau dro ar ôl tro. Un canlyniad posibl yw y gallail’r rheoliadau ddwysáu eto, sy'n bryder enfawr.

27. Soniodd Gail am Gynllun Gweithredu yr Uwchgynhadledd a gallai'r allbwn penodol gan Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA adrodd yn ôl i'r Uwchgynhadledd mewn perthynas â'r adroddiad. Ceir camau penodol yn ymwneud â rôl Cyswllt Ffermio, cyngor a chymorth. Mae'n debyg y bydd angen bwydo hyn yn ôl i Gangen Dŵr Llywodraeth Cymru er mwyn iddynt ddiweddaru Cynllun Gweithredu’r Uwchgynhadledd Afonydd gyda'r argymhellion. Os byddant yn mynd i mewn i'r Cynllun Gweithredu, yna caiff amserlenni eu dyrannu a nodir sefydliadau arweiniol i'w symud ymlaen. Mae unrhyw ymrwymiadau ariannol yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru o dan yr Uwchgynhadledd honno. Nododd Gail fod rhai o'r heriau a'r cyfleoedd manwl o fewn yr

adroddiad eisoes ar y gweill ac efallai bod angen cael gwell cyfathrebu er mwyn cysylltu pethau gyda'i gilydd.

28. **Argymhelliad 1b - Argymhelliad Cymorth Ariannol**: roedd y grŵp yn gyffredinol yn cytuno bod angen buddsoddi er mwyn cefnogi gwelliannau mewn seilwaith ffermydd. Gofynnodd Rhys a oedd hi'n briodol i'r Is-grŵp ofyn am eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch cynlluniau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.

29. Atgoffodd Rachel y grŵp o'r Asesiad Effaith Rheoleiddio ar gyfer Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, a oedd yn nodi costau £360 miliwn - roedd hynny cyn y pwysau chwyddiant sylweddol sydd wedi digwydd ers hynny. Croesewir yr £20 miliwn a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022 ac mae bellach ar gael i'r diwydiant, ond mae angen buddsoddiadau sylweddol iawn. Mae llawer o ffordd i fynd i gefnogi'r diwydiant i wneud y newidiadau hyn mewn cyd-destyn economaidd heriol iawn i fusnesau fferm yng Nghymru.

30. Cododd Russ Thomas, HCC bryderon ynghylch cyllid grant i ffermwyr yn rhy araf i gadw i fyny â'r datblygiadau diweddaraf. Mae llawer o waith ymchwil a datblygu wedi bod o fewn y diwydiant yn edrych ar ddulliau, mecanweithiau a thechnoleg newydd ac ati. Mae ffermwyr yn ymwybodol o'r datblygiadau hyn ac yn cyflwyno ceisiadau i weld a yw'r dechnoleg neu'r offer newydd yn gymwys ar gyfer y grant, ond yn aml mae Llywodraeth Cymru yn rhy bell ar ei hôl hi ac nid oes ganddynt wybodaeth am dechnoleg o'r fath, ac fel arfer, ni fydd yn ei chymeradwyo.

31. Awgrymodd Fraser gymorth ychwanegol i Awdurdodau Lleol i gymeradwyo rhai o'r newidiadau hyn. Mae aelodau CLA hefyd wedi rhannu eu profiadau o oedi a chyfnodau estynedig i gymeradwyo unrhyw fath o benderfyniadau cynllunio sy'n ymwneud â newidiadau i'r seilwaith.

32. Daeth Rhys i'r casgliad y byddai'r grŵp yn croesawu'r argymhelliad hwn, ond byddai'n awyddus i gael eglurhad ynghylch unrhyw gynlluniau ariannu yn y dyfodol i gefnogi gwelliannau i seilwaith, yn enwedig mewn perthynas â'r Afonydd ACA.

33. **Argymhelliad 1c — Rheoliadau**: bu'r grŵp yn trafod y rheoliadau cyfredol, gan gytuno eu bod yn gymhleth, a bod angen amser ar ffermwyr i ddod i'w deall.

34. Awgrymodd David y bydd y rheoliadau, yn enwedig o ran ffosffad, yn cymryd tipyn o amser i gael unrhyw effaith. Mae proses Adolygiad 4 blynedd CoAPR ar ddechrau, ond mae'n rhy fuan i bennu a ydynt wedi cael effaith fuddiol ar lefelau ffosffad mewn afonydd. Mae angen amser i weld effaith y rheoliadau (e.e. daw'r mesur graddol terfynol i rym o 1 Awst 2024).

35. Roedd y grŵp yn cydnabod y pwynt pwysig yn yr adroddiad ynglŷn ag ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a lles ffermwyr.

36. Dywedodd Dennis nad cyllid yw'r broblem i denantiaid, mae'r broblem yn ymwneud â chael caniatâd. O ran rheoliadau ac iechyd meddwl, dywedodd Dennis nad yw ffermwyr eisiau rhagor o reoliadau yn enwedig gan nad yw'r rhai presennol wedi'u gweithredu'n llawn eto - dylem geisio cael y rheoliadau presennol ar waith yn gyntaf cyn awgrymu unrhyw newidiadau pellach.

37. **Argymhelliad 2 — Data a thystiolaeth**: cafodd y grŵp drafodaeth gynharach ynghylch sensitifrwydd data a phryderon ffermwyr ynghylch rhannu eu data.

38. Awgrymodd Rhys efallai bod rôl benodol i'r is-grŵp neu o bosibl rhywfaint o gyflwyniadau wedi'u targedu a allai helpu i greu darlun o faterion yn ymwneud â data a thystiolaeth. Gallai sgwrs gyda phrifysgolion hefyd fod o gymorth oherwydd yn aml iawn maent yn chwilio am brosiectau byd go iawn a heriau i'w harchwilio. Felly, gallai fod cwmpas wrth fynd at brifysgolion i helpu i lenwi bylchau data a thystiolaeth.

39. Soniodd Gareth am system fonitro ansawdd dŵr CNC a gofynnodd a yw hynny'n cynnwys modelu SAGIS neu a yw'n canolbwyntio'n fwy ar ansawdd cyffredinol dalgylch. Nodd Marc ei fod yn cofio trafodaethau Grŵp Technegol yn y gorffennol ynglŷn â gwaith CNC i fonitro ar gyfer yr agwedd asesu cydymffurfiaeth yn hytrach na'r gwaith modelu ffynhonnell gwirioneddol. Fodd bynnag, bu'r Grŵp Technegol hefyd yn trafod y gwaith dosrannu ffynhonnell a dyna lle mae rhai o'r argymhellion yn deillio o ran gwell tystiolaeth yn hytrach na rhywfaint o'r gwaith monitro gyda modelu SAGIS. Cafwyd trafodaethau ynglŷn â bod SAGIS yn adnodd i'r diwydiant dŵr, ond mae hefyd yn arwydd o'r cyfraniadau defnydd tir, ond mae'n anodd iawn cyfyngu hynny i lawr i faint sy'n dod ô'r ochr amaethyddol.

40. Nododd Rachel fod offeryn SAGIS yn offeryn modelu cwmni dŵr. Mae wedi bod drwy broses sicrhau ansawdd o fewn CNC, ond nid o safbwynt ei addasrwydd ar gyfer amaethyddiaeth. Mae angen i ni gadw hynny mewn cof, ac mae angen monitro gwell a sylfaen dystiolaeth gryfach arnom. Mae angen i ni gofio hynny wrth ddod i unrhyw gasgliad, yn enwedig lle gallai mwy o reoleiddio godi o ganlyniad. Mae angen gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn ac nid modelau yn unig.

41. Dywedodd Gail ein bod ofn canolbwyntio gormod ar y gwaith modelu SAGIS lle mae llawer iawn o ffynonellau tystiolaeth a data sy'n rhedeg ochr yn ochr â gwaith dosrannu SAGIS. Esboniodd Gail fod offeryn SAGIS yn offeryn cydbwysedd màs syml - mae'n cymryd yr holl ddata a ganiateir ac yn bwydo hynny i'r model, ac mae'n gallu aseinio'r data trwydded yn gywir yn erbyn y data monitro ac yna mae'r gweddill ohono'n 'anhysbys'. Mae'r gyfran 'anhysbys' wedi cael ei hatodi at sector sydd wedi cael ei grwpio at ei gilydd, o'r enw 'rheoli tir gwledig'. Roedd Gail yn cydnabod y byddai'r grŵp hwn fwy na thebyg yn dymuno i'r elfen 'rheoli tir gwledig' fod yn fwy cywir a chael ei neilltuo'n well. Fodd bynnag, er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen rhannu data. Mae hynny'n hanfodol, ganfod modelau yn ddibynnol ar y data sy'n cael ei fewnbynnu, ac er bod gennym rywfaint o ddata amaethyddol i'w fwydo i'r modelau hyn, nid oes modd i ni eu gwella.

42. Soniodd Gail am adolygiad parhaus CNC o'i rwydwaith monitro ansawdd dŵr. Mae'r Byrddau Rheoli Maetholion hefyd yn gweithio ar hyn o bryd ar adolygiad a thystiolaeth ar bob un o'u hafonydd. Dywedodd Gail ei bod wedi gweld y dystiolaeth ddrafft a'r adolygiad monitro ar gyfer afonydd gorllewin Cymru, sy'n eithaf syfrdanol ac mae'n debygol o anfon negeseuon o amgylch y rhwydwaith monitro yn yr ardal honno. Mae Partneriaeth Dalgylch yr Afon Wysg hefyd ar fin cyhoeddi adroddiad ar Afon Wysg. Mae llawer o ffynonellau data ac mae'r Ymddiriedolaeth Afonydd a'r Byrddau Rheoli Maetholion wedi defnyddio sondau a dadansoddwyr ychwanegol. Mae hyn mewn gwirionedd yn ymwneud â sut y gallwn weithio'n well mewn partneriaeth i gasglu'r ffynonellau data ar raddfa dalgylch a gweithio'n fwy cydweithredol.

43. Awgrymodd Rhys fod rôl bosibl i Brosiect Dalgylch Arddangos Teifi i dynnu ffynonellau data ynghyd, ac o bosibl i weithredu fel templed o'r hyn y gellid ei ailadrodd mewn mannau eraill yng Nghymru.

44. Dywedodd Rachel nad yw'r dull monitro a seiliedig ar dystiolaeth yn thema newydd. Rydym am weld gwaith monitro clir iawn ar ddyfrffyrdd. Mae angen i ni hefyd fod â hyder mewn unrhyw ddosraniad ffynhonnell sy'n cael ei wneud gan CNC. Rydym hefyd eisiau deall sut mae'r data hwnnw'n cael ei ddehongli. Dywedodd Rachel ei bod yn cofio enghraifft o'r Grŵp Technegol Amaethyddol a thrafodaethau blaenorol ynglŷn â'r modelu SAGIS - cawsant gyflwyniad gan Dŵr Cymru a chawsant wybod fod biosolidau sy'n cael eu gwasgaru ar y tir o'r diwydiant dŵr yn cael eu priodoli i amaethyddiaeth mewn gwirionedd, ac nid i'r diwydiant dŵr lle maent yn tarddu. Felly, mae'r dehongliad a'r tryloywder ynghylch data, modelu ac unrhyw gasgliadau yn hollbwysig. Roedd Rachel yn cydnabod bod y rhain yn broblemau cymhleth iawn.

45. Cytunodd Gareth fod angen edrych ar yr holl ddata a thystiolaeth sydd ar gael wrth edrych ar fonitro ansawdd dŵr. Cofiodd Gareth bryderon yn dilyn yr Uwchgynhadledd gyntaf oherwydd bod y pecyn tystiolaeth a ddarparwyd i randdeiliaid cyn y digwyddiad hwnnw yn defnyddio modelu SAGIS i bob pwrpas i bennu ansawdd dŵr gwahanol dalgylchoedd. Mae angen i'r sgwrs fod yn ehangach na Dŵr Cymru a CNC yn unig fel bod rhanddeiliaid yn y diwydiant yn gallu deall sut mae'r model yn gweithio. Byddai'n ddiddorol gweld prosiect Arddangos Teifi fel ffordd bosibl o geisio gweithio'n well gyda rheolwyr tir a ffermwyr i wella'r setiau data ar gyfer y dalgylch a gweld sut mae hynny'n gweithio.

46. Nododd Ruth bwyntiau blaenorol yn ymwneud â slwtsh carthion a briodolwyd i amaethyddiaeth, ac eglurodd y dylai deunyddiau a daenir ar dir fod ar gyfer anghenion cnydau, felly o bosibl, mae rhagdybiaeth wedi cael ei wneud bod y rheolwr tir angen y slwtsh at ei ddibenion ei hun. Felly, mae ei rôl o fewn modelu SAGIS wedi'i neilltuo i amaethyddiaeth oherwydd derbyn y deunydd i'r tir at ddiben amaethyddol. Mae'r ffocws wedi bod ar gwmnïau dŵr ar hyn o bryd, ond mae edrych ar briodoldeb SAGIS ar gyfer y sector amaethyddol o fewn ein cynllun gwaith at y dyfodol. Mae amaethyddiaeth yn ganran fawr o'r siart cylch ar brydiau, yn enwedig yn nalgylch Teifi, sef lle y byddem eisiau treialu'r trafodaethau hynny. Nid ydym eisiau gwneud rhagdybiaethau ar ddata nad yw'n addas i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu ymddiriedaeth a rhannu - ni allwn wneud i'r adnoddau weithio os nad ydym yn onest ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei fewnbynnu. Mae hefyd angen i ni drafod o'r dechrau, fel bod pawb yn deall beth sy'n mynd i mewn i'r adnodd, sut mae'n gweithio, beth mae'r adnodd yn ei ddweud wrthym ni a phwy sy'n berchen ar y wybodaeth. Dywedodd Rachel bod hynny'n swnio fel ffordd llawer gwell o weithio.

47. Daeth Rhys i'r casgliad bod yr argymhelliad hwn yn fwy cymhleth ac efallai bod mwy i ni ei ystyried fel grŵp. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y trafodaethau hyn, gallwn oll gefnogi'r angen am fwy o ddata a data mwy cadarn. Rydym wedi clywed bod mwy o fonitro ac felly mwy o ddata yn cael ei gasglu ond byddai'n dda gweld ymdrechion yn cael eu gwneud i gasglu'r data hwnnw er mwyn creu darlun mwy cynhwysfawr a manwl o ffosfforws yn Afonydd ACA. Mae'r grŵp hefyd wedi cydnabod y materion yn ymwneud â modelu a mesur gwirioneddol ar y ddaear. Mae cyfyngiadau gwaith modelu hefyd wedi'u codi ynghyd â'r ffordd y mae data yn cael ei ddehongli. Fodd bynnag, mae her bwysig yn ymwneud â phryderon ffermwyr ynghylch rhannu eu data hefyd yn parhau. Yn ogystal, bydd perthnasoedd cadarnhaol ac ymdrechion cydweithredol yn allweddol os bydd Prosiect Dalgylch Arddangos Teifi yn archwilio rhai o'r heriau data a thystiolaeth a drafodwyd heddiw.

48. Dywedodd David yn bendant fod angen i ni sicrhau bod gennym ddata cadarn i ddarparu tystiolaeth gref. Ni allwn symud ymlaen a cheisio gwella'r sefyllfa drwy gamau gweithredu wedi'u targedu os yw'r wybodaeth sydd gennym yn amheus.

49. Soniodd Ruth fod y person sy'n arwain ar fodelu SAGIS ar gyfer CNC yn gweithio o fewn ei thîm a chynigiodd drefnu iddynt siarad â'r grŵp hwn am fodelu SAGIS ac i ddechrau'r sgwrs honno o sut y gallwn gynnal trafodaethau gyda'r sector amaethyddol. Mae angen i ni wneud y modelau yn addas i'r diben er mwyn amcangyfrif y mewnbynnau maetholion ar gyfer y cyrff dŵr, nid ar gyfer sector penodol. Dywedodd Ruth y gallai ofyn iddo esbonio'r model SAGIS ac yna gallem drafod pa ddata y gallai'r sector amaethyddol ei gyflwyno i'w ystyried o fewn model a sut y gellid defnyddio'r data hwnnw, fformat gofynnol ac ati.

***Pwynt Gweithredu 17 Mehefin 01: Ruth Johnston, CNC i drefnu i'w chydweithiwr ddarparu cyflwyniad yn y dyfodol ar fodel SAGIS.***

50. Awgrymodd Rhys y dylid rhoi'r argymhelliad penodol hwn o'r neilltu o ran ymateb swyddogol gan y grŵp hwn ar hyn y bryd. Gallai cyflwyniad dilynol ar fodel SAGIS ein helpu i lunio safbwynt mwy gwybodus ar sut y gallwn gefnogi'r argymhelliad at y dyfodol. Roedd David yn gefnogol iawn — byddai unrhyw beth sy'n hyrwyddo gwell dealltwriaeth o sut mae modelau'n gweithio yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, ceir her o hyd o ran casglu data gwirioneddol i'w ddefnyddio fel tystiolaeth gref. Nododd Gail a Ruth efallai os ydym yn deall yr offeryn yn well (ee, pa wybodaeth all fynd i mewn i hynny, y fformat priodol ac ati), yna gyda'n gilydd gallwn ddarganfod pwy sydd â'r data gofynnol hwnnw (ee, CNC, cwmni dŵr, ffermwyr, gwyddoniaeth dinasyddion ac ati). Yna gallwn brofi priodoldeb y model SAGIS i'w ddefnyddio yn y sector amaethyddol er mwyn ceisio deall beth mae'r model yn ei ddweud wrthym a beth mae'r data go iawn yn ei ddweud wrthym a sut maen nhw'n cymharu. Fodd bynnag, mae adnoddau'n brin, felly mae'n bwysig gweithio gyda'n gilydd i gyflawni rhywbeth gwirioneddol a gwella'r amgylchedd.

51. Soniodd David mai un o'r argymhellion penodol yn yr adran hon o'r adroddiad yw mynd i'r afael ag anghysondebau ym maes monitro ansawdd dŵr a gwella'r rhwydwaith monitro gyda chyllid ac adnoddau priodol. Cytunodd Ruth bod angen monitro priodol arnom, ac mae angen ei ariannu, ond gorau oll po fwyaf y gallwn ni weithio gyda'n gilydd.

52. Dywedodd Rachel nad yw'r rhain yn drafodaethau newydd a byddem wedi hoffi bod lawer ymhellach ymlaen wrth fynd i'r afael â materion ynghylch tystiolaeth a data. Dywedodd Rachel bod y chwe mis diwethaf wedi bod yn anodd iawn wrth i'r diwydiant ymgynghori ynghylch cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys gofynion helaeth o ran darparu data i Lywodraeth Cymru o fewn y Camau Gweithredu Cyffredinol arfaethedig. Roedd Rachel yn synnu ar lefel y pryder, gofid a diffyg ymddiriedaeth a fynegwyd yng nghyfarfodydd ymgynghori'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gan fod y data y disgwylir i ffermwyr ei ddarparu gael ei ddefnyddio i bob pwrpas i brocio'r diwydiant. Ceir teimlad o fewn y diwydiant y bydd Llywodraeth Cymru yn troi at reoleiddio yn y lle cyntaf yn hytrach na chyfres o fesurau fel cyngor a chyfarwyddyd, buddsoddi, a chymorth, ac yn y pen draw na fyddai'n ceisio gweithio gyda'r diwydiant i ddod o hyd i atebion. Yn anffodus, ceir mwy o wrthwynebiad nawr i'r broses o ddarparu data nag yn y gorffennol oherwydd y diffyg ymddiriedaeth yn ymateb posibl Llywodraeth Cymru, y mae ffermwyr yn tybio y bydd yn canolbwyntio mwy ar reoleiddio na ffordd gydweithredol o weithio.

53. Dywedodd Gail fod angen i ni atgoffa ein hunain pam ein bod ni i gyd yn y grwpiau hyn, ynghyd â'r hyn sy'n ein sbarduno. Yn y bôn, ein rhwymedigaeth gyfreithiol dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yw sicrhau bod afonydd mewn statws cyflwr ffafriol ac i ddiogelu'r cynefinoedd a'r rhywogaethau ynddynt. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i gael yr afonydd hynny i statws cyflwr ffafriol ac rydym wedi colli llawer iawn o amser ac efallai y byddwn yn colli hyd yn oed mwy o amser tra byddwn yn anghytuno ynghylch modelu a data. Gall modelau ond fod cystal â'r data sydd ynddynt, ac mae'n rhaid i ni i gyd dderbyn hynny a symud ymlaen. Mae'n rhaid cymryd camau os ydym yn mynd i gael yr afonydd hyn yn ôl i'r lle mae angen iddynt fod. Nid yw'r afonydd hynny'n bwysig i'r amgylchedd yn unig, maent hefyd yn bwysig i amaethyddiaeth a ffermio. Mae'n drueni mawr bod naratif sy'n dangos ffermwyr yn gwrthdaro â'r amgylchedd. Anogodd Gail y grŵp i geisio symud rhai o'r elfennau hyn ymlaen.

54. Cytunodd Gareth fod angen i'r ddeialog symud ymlaen a chydnabu bod cyfrifoldeb gennym oll i wella ansawdd dŵr ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni hefyd werthfawrogi o safbwynt busnes ffermio, mae ffermwyr wyn wynebu llu o reoliadau a fydd yn golygu buddsoddiad o fwy na £100k i rai ffermwyr ar gyfer newidiadau angenrheidiol ac ni chafwyd unrhyw gefnogaeth ariannol allweddol. Roedd Gareth yn cydnabod cefnogaeth Llywodraeth Cymru o £20 miliwn, ond nid yw'n agos at y gost i'r diwydiant. Sefydlwyd y grŵp hwn flynyddoedd lawer yn ôl ac fe wnaethom lunio adroddiad yn 2018 a oedd yn edrych ar ffyrdd y gallem weithio gyda'n gilydd gydag amryw sectorau eraill. Roedd yn argymell cyngor ac arweiniad a chymorth ariannol ond nid yw'r hyn a gawsom ers hynny wedi adlewyrchu'r hyn a amlygwyd yn ôl yn 2018. Mae bywoliaeth ffermwr yn golygu elw tynn iawn i bob pwrpas, ac mae llawer o reoliadau wedi cael eu gosod, ac maent yn wynebu costau enfawr. O'r safbwynt hwn, gallwch werthfawrogi anawsterau a diffyg ymddiriedaeth cyffredinol y diwydiant o ran darparu data ar gyfer model a allai gael ei ddefnyddio ar gyfer rheoliadau pellach yn y dyfodol.

55. **Argymhelliad 3 - Ymchwil ac arloesi**: Nododd Rhys nad yw'r argymhelliad hwn yn arbennig o ddadleuol. Dywedodd David bod cronfa gyfyngedig o arian ar gael, ac mae'r adroddiad yn gofyn bod Cyswllt Ffermio yn derbyn cyllid i gyflawni ei rôl o leiaf. Mae hefyd yn gofyn am gymorth ar gyfer seilwaith ar fferm a chymorth i annog arloesi o ran rheoli tail (ee, prosesu slyri i'w rannau cyfansoddol er mwyn ei wneud yn haws ei reoli neu ei wahanu a'i symud o ardal benodol). Mae technolegau yn cael eu harchwilio ond mae angen cyllid ar gyfer datblygu ac i ddarparu tystiolaeth o effeithlonrwydd. Dywedodd Rhys fod y grŵp hwn yn croesawu ymchwil ac arloesi, ond efallai bod angen cael digon o gyllid neilltuol ar gael.

56. **Newid ymddygiad**: rydyn ni i gyd eisiau yr un nod o ran ymddygiad, ond mae mecanweithiau weithiau'n heriol. Fodd bynnag, mae'r diffyg ymddiriedaeth ymhlith y gymuned ffermio yn her fawr a bydd newid rhai o'r ymddygiadau hyn o bosibl yn fwy anodd. Mae hyn yn rhywbeth y dylai'r grŵp fyfyrio arno hefyd.

57. Soniodd Marc fod adran newid ymddygiad yr adroddiad yn bwynt cyffredinol ar gyfer yr holl argymhellion hynny yn hytrach nag argymhelliad ynddo'i hun. Dywedodd David fod hyn yn cefnogi'r ddadl nad yw hyn i gyd yn ymwneud â rheoleiddio, mae angen cael cefnogaeth ehangach.

58. Diolchodd Rhys i Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA am lunio'r adroddiad a diolchodd i'r grŵp hwn am y drafodaeth fanwl. O'r trafodaethau hyn, mae'r Is-grŵp yn gyffredinol yn gefnogol i'r argymhellion, ond efallai y gallwn ofyn i Lywodraeth Cymru

am eglurhad neu fwy o fanylion mewn rhai meysydd (bydd hyn wedi cael ei nodi'n ffurfiol o fewn y cofnodion).

59. Dywedodd Marc y bydd hefyd yn cael trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ar y camau nesaf a'r ffordd orau o symud ymlaen. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn trefnu'r Uwchgynhadledd nesaf, ond bydd amser yn brin iawn o ran yr hyn y gallant ei drafod. Byddai'n ddefnyddiol cael cofnod o'r hyn a drafodwyd yn ffurfiol/cytunwyd arno a'r hyn y dylid ceisio eglurhad yn ei gylch. Dywedodd Marc y bydd yn cael trafodaethau gyda Cat Osborne, Llywodraeth Cymru ynghylch rhai o'r camau nesaf.

60. Dywedodd Rhys fod Bronwen wedi nodi'r trafodaethau ac yna gallwn dynnu ein hymatebion ynghyd i bob un o'r argymhellion. Yna gellir dosbarthu hynny i'r grŵp i'w gytuno cyn i ni ei rannu â Llywodraeth Cymru.

***Pwynt Gweithredu 17 Mehefin 02: Marc Williams, CNC i siarad â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r camau nesaf yn dilyn adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA ac adborth i'r grŵp.***

***Pwynt Gweithredu 17 Mehefin 03: Yr Athro Rhys Jones a Bronwen Martin i gydweithio i dynnu ymatebion at ei gilydd i bob un o'r argymhellion o fewn adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA a'i gylchredeg i'r grŵp.***

## Eitem 4. Cynllun Rheoli Basn Afon: Ymgynghoriad Gweithio Gyda'n Gilydd

61. Rhoddodd Ruth Johnston, CNC gyflwyniad ar yr Ymgynghoriad Gweithio Gyda'n Gilydd. Mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn cynnwys nifer o ddogfennau gan gynnwys Crynodeb, Atodiad Trosolwg (Ardal Basn Cymru ac Afon Dyfrdwy), Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd a Phenderfyniad Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol.

62. Mae'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Dosbarthiad cyrff dŵr – Statws gwaelodlin pob corff dŵr. Mae atal dirywiad o'r sefyllfa sylfaenol hon yn un o amcanion allweddol y cynllun hwn, ac mae'n un o'r heriau mwyaf sylweddol rydym yn ei hwynebu wrth ddiogelu'r amgylchedd dŵr
- Crynodeb o'r Rhaglen o Fesurau i gyflawni amcanion statudol — Y camau gweithredu dros y cylch cynllunio hwn a blaengynllunio.
- Amcanion statudol ar gyfer cyrff dŵr – Mae amcanion wedi'u pennu ar gyfer pob elfen ansawdd ym mhob corff dŵr, gan gynnwys amcan ar gyfer y corff dŵr cyfan.

63. Yr amcan arferol oedd anelu at gyflawni statws neu botensial da erbyn 2027. Er y dylid nodi fod gennym amgylchiadau eithriadol sydd yn ein galluogi i amharu ar yr amcan da hwnnw. Er enghraifft os yw'r afon wedi'i chamlesu'n sylweddol am resymau llifogydd, byddai'n bosibl cyflawni potensial cymedrol yn unig, neu os oes angen mwy o amser arnom, byddai modd i ni ddweud y byddai'n cyflawni potensial da, ond bydd hynny'n cymryd tan 2036 ac felly ceir cyfiawnhad dros wneud hynny.

64. Rhoddodd Ruth drosolwg o'r dosbarthiad o 2021. Ar draws yr holl gyrff dŵr wyneb a dŵr daear yng Nghymru yn 2021, roedd 40% ohonynt at statws da neu well yn gyffredinol, neu â'r potensial i gyrraedd y statws hwnnw. Mae hyn yn cynrychioli gwelliant o 3% o'r hyn a adroddwyd yn 2015 ar ddechrau'r 2il gylch (37%) a gwelliant o 8% ers 2009.

65. Rhoddodd Ruth grynodeb o'r 5 rheswm uchaf dros beidio â chyflawni statws ‘Da' gan gynnwys addasiadau ffisegol, mwyngloddio hanesyddol, llygredd gwledig, llygredd pwynt penodol a llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth.

66. Rhoddir mesurau ar waith i gyflawni amcanion statudol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) gan gynnwys:

- Atal dirywiad mewn statws.
- Cyflawni'r amcanion ar gyfer Ardaloedd Gwarchod
- Cyflawni statws/potensial da yn gyffredinol ar gyfer dŵr wyneb a dŵr daear.

67. Mae'r Rhaglen o Fesurau yn cyflawni'r amcanion statudol; mesurau strategol (cenedlaethol) a mesurau lleol. Mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn gosod y cyfeiriad a’r fframwaith i reoli, diogelu a gwella dŵr Cymru. Maent ar gyfer pob dyfroedd gan gynnwys afonydd, llynnoedd, camlesi, dyfroedd daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol. Cyhoeddwyd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon Cyntaf yn 2009, a chânt eu diweddaru bob 6 mlynedd. Ar hyn o bryd yn gweithredu Cylch 3 (2021-2027), cynllunio ar gyfer Cylch 4 (2027-2033) a meddwl am Gylch 5 (2033 ymlaen). “Mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn rhoi cyfle i ni osod uchelgeisiau newydd ar gyfer rheoli ein dyfroedd yng Nghymru. Mae’r broses yn ehangu ac yn diweddaru ein dealltwriaeth o gyflwr presennol ein hamgylchedd dŵr, y pwysau sydd arno a pha fesurau sydd eu hangen i’w wella a’i warchod. Mae angen i ni wneud y gwaith hwn ar y cyd.

68. Rhoddodd Ruth y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith cyfredol. Cyhoeddwyd Cylch 3 y Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn 2021, ac rydym yn drafftio’r adroddiad cynnydd interim C3. Bydd Cylch 4 y Cynlluniau Rheoli Basn Afon 2027 yn cael eu cyhoeddi, ac rydym yn dechrau'r broses o gynhyrchu'r cynlluniau hyn. Mae tri cham ymgynghori statudol - yr ymgynghoriad gweithio gyda’n gilydd, yr ymgynghoriad heriau a dewisiadau ac yna’r Cynllun Rheoli Basn Afon drafft. Ar hyn o bryd rydym yn y cam Ymgynghoriad Gweithio gyda’n Gilydd, ac mae hwn yn ymwneud â phwy y dylem siarad â nhw, beth sydd angen i ni ei ystyried, sut yr hoffech weithio gyda nhw a phryd y dylem fod yn gwneud hynny. I bob pwrpas, mae’n gofyn i chi ddweud beth yr ydych chi ei eisiau o’r broses hon fel y gallwn benderfynu gyda’n gilydd sut i gyflawni’r broses orau. Bydd y cam Heriau a Dewisiadau yn dilyn, sy’n golygu trafod yr hyn sy’n digwydd a beth mae’r dosbarthiad interim yn ei ddweud wrthym.

69. Esboniodd Ruth fod angen i ni ddeall sut mae partneriaid a rhanddeiliaid eisiau gweithio gyda CNC, fel ein bod yn sicrhau ein bod yn cynnwys pobl ar y cam cywir o ran taliadau a dewisiadau ac ar y cam cywir pan fydd y cynlluniau rheoli Basn Afon drafft yn cael eu cynhyrchu. Aeth yr ymgynghoriad yn fyw ar 29 Mai a bydd yn rhedeg am gyfnod o 6 mis tan 20 Rhagfyr. Bydd y dosbarthiad interim yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2025 ochr yn ochr â'r Asesiad Cydymffurfiaeth ACA cyfoes.

70. Gofynnodd Ruth am i'r grŵp gymryd rhan yn y broses ymgynghori a rhannu gydag eraill - Ym gynghoriad Gweithio Gyda'n Gilydd.

71. Gofynnodd Gareth a yw'r cynlluniau'n rhai lefel uchel, neu a ydynt yn edrych yn fanwl ar yr hyn sydd ei angen ym mhob dalgylch afon er mwyn gwella ansawdd dŵr. Gofynnodd Gareth hefyd a yw'r rhai blaenorol wedi bod yn llwyddiannus wrth gyflawni'r hyn fwriadwyd. Dywedodd Ruth fod y WFD wedi'i sefydlu i weithio ar draws Ewrop ac mae rhai o'r afonydd yn Ewrop yn llawer mwy na'r rhai yng Nghymru, felly sefydlwyd Ardaloedd Basn Afonydd wedyn - Dyfrdwy, Hafren a gweddill Cymru. Rydym yn

cydnabod, o ran ymgysylltu â phobl eraill a chyflawni gwirioneddol ar lawr gwlad, na allwch weithio ar y raddfa honno ar gyfer pob mater. Er bod rhai materion, fel gwahardd cemegau gallai gweithio ar y raddfa honno. Mae gennym grynodebau dalgylchoedd rheoli sy'n edrych ar y dalgylchoedd afonydd unigol. O ran y mesurau, rhoddir dosbarthiad i bob corff dŵr (e.e. cymedrol), yna rhoddir amcan a fyddai wedi'i osod yn erbyn gwaelodlin 2009 (e.e. da) ac yna bydd yn cael ei gysylltu gyda mesurau lleol y mae angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau bod y corff dŵr hwnnw yn cyrraedd y statws gofynnol. Ceir dehongliad lleol o'r cynlluniau ar raddfa genedlaethol, ac un o'n heriau ar gyfer cylch 4 yw i beidio â chynhyrchu dogfen PDF enfawr, ond yn hytrach i geisio sicrhau bod y data ar gael yn ofodol. Mae eisoes ar gael ar Arsylwi Dyfroedd Cymru, felly gallwch gael map o Gymry a rhoi haenau ar y map megis data dosbarthu ac yna edrych ar y dalgylch i weld pa gorff dŵr sydd â statws cymedrol neu dda mewn gwirionedd. Rydym yn dymuno gwella'r cysylltiad hwnnw rhwng y wybodaeth honno am y corff dŵr â'r amcanion a'r mesurau ac yna mae camau gweithredu yn digwydd ar lawr gwlad.

72. Cofiodd Dennis fod llygredd o fwyngloddiau yn cael ei grybwyll, mae llygredd o fwyngloddiau metel yng Nghymru yn broblem fawr o'i gymharu â lleoedd eraill yn y DU. Nid yw'r mwyngloddiau'n berchen i neb erbyn hyn, felly pwy sy'n cael y bai am y llygredd? Mae llygredd o fwyngloddiau metel fel plwm a sinc yn fygythiad i iechyd pobl. Mae llygredd o amaethyddiaeth yn fygythiad i iechyd pobl, ond yn fwy o fygythiad i fywyd gwyllt a'r amgylchedd. Mae adnoddau a chyhoeddusrwydd wedi canolbwyntio ar 'ffermwyr drwg' yn llygru afonydd. Gellir datrys llygredd amaethyddol, a gallwch hefyd feio rhywun. Mae datrys llygredd o fwyngloddiau metel yn anodd iawn. Dywedodd Dennis fod adnoddau'n cael eu cyfeirio at lygredd amaethyddol yn bennaf a gofynnodd a yw Llywodraeth Cymru wir yn cyfeirio pethau at y broblem iawn neu a ddylent hefyd fod yn canolbwyntio ar lygredd o fwyngloddiau metel. Dywedodd Ruth fod Llywodraeth Cymru wedi darparu £15 miliwn i CNC o dan ei Chronfa Argyfwng Natur ac Hinsawdd eleni, ac o hynny, mae £6 miliwn yn uniongyrchol ar gyfer mwyngloddiau metel. Nid edrych ar driniaeth yn unig y mae'r rhain, maent hefyd yn edrych ar y ffynhonnell a'r hyn sy'n achosi'r problemau (e.e. gwaith ar y cyd ynglŷn â Mwynglawdd Goch).

73. Bu Rhys a Ruth yn trafod edrych ar faterion ehangach o fewn dalgylch gan gynnwys llygredd yn y pridd, problemau ffosfforws mewn afonydd, problemau algaidd, tymheredd afonydd, ailgysylltu gorlifdiroedd ac ati.

74. Soniodd Ruth fod y rheol 'un allan, pob allan' yn dal i sefyll am nad yw deddfwriaeth wedi'i newid, ond rydym yn ymwybodol iawn bod Defra yn ystyried newid y ddeddfwriaeth sy'n creu cymhlethdod i Gymru oherwydd bod y rheoliadau sy'n gofyn am 'un allan, pawb allan' yn rheoliadau i Gymru a Lloegr. Dywedodd Rachel fod y rheol 'un allan, pawb allan' yn ddiddorol oherwydd gellir dadlau y gallai fod yn cuddio rhywfaint o'r cynnydd sy'n cael ei wneud a allai fod yn ysgogwr. Gofynnodd Rachel a oes unrhyw dargedau newydd y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt oherwydd bod yr afonydd ACA wedi methu o ganlyniad i dargedau newydd, llymach gan y JNCC. Dywedodd Ruth ein bod hefyd yn cyhoeddi'r dosbarthiad lefel elfennol er mwyn i chi allu gweld y tueddiadau o ran pethau sy'n gwella a allai o bosibl gael eu cuddio gan y dosbarthiad cyffredinol - mae'r data hwn ar gael. O ran Dosbarthiad Interim y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, nid oedd Ruth yn ymwybodol o unrhyw newidiadau. Pan gyhoeddwyd y dosbarthiad diwethaf, roedd newid mewn methodoleg yn ymwneud â dosbarthiad asideiddio, ac fe wnaethom ni egluro hynny'n glir ar y pryd. Os oes unrhyw newidiadau cyn cyhoeddi ym mis Ionawr 2024, unwaith eto bydd angen i ni wneud hynny'n glir a rhoi eglurhad.

75. Ailadroddodd Ruth y gwahoddiad i randdeiliaid gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a'i rannu'n ehangach. Bydd yr un neges yn cael ei chyfleu i aelodau fforymau eraill. Dywedodd Ruth y byddai'n dod yn ôl at y grŵp gyda diweddariadau rheolaidd, a'r nesaf o'r rhain fydd Adroddiad Cynnydd Gweithredu Cylch 3 a'r adroddiad interim ar gydymffurfiaeth gyda dosbarthiad ACA ym mis Ionawr 2025.

***Pwynt Gweithredu 17 Mehefin 04: Y grŵp i ymgysylltu â'r Ymgynghoriad 'Gweithio Gyda'n Gilydd' a'i rannu gyda'u rhwydweithiau.***

***Pwynt Gweithredu 17 Mehefin 05: Bronwen Martin, CNC i rannu copi o'r cyflwyniad ar 'Cynllun Rheoli Basn Afon:*** **Ymgynghoriad Gweithio Gyda'n Gilydd**

## Eitem 5. Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: Adolygiad 4 blynedd

76. Rhoddodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru ddiweddariad llafar ar broses adolygu pedair blynedd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

77. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd ac yn nes at fod mewn sefyllfa i benodi'r cadeirydd allanol annibynnol. O ran amserlenni, bydd yn ddibynnol ar barodrwydd darpar ymgeiswyr i gymryd y swydd honno. Fodd bynnag, gobeithio y byddem mewn sefyllfa i fod yn gwneud cyhoeddiad cyn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru (e.e., cyn cyfarfod nesaf yr Is-grŵp o bosibl) ond byddwn yn diweddaru'r grŵp.

78. Adolygodd Andrew y camau gweithredu perthnasol a rhoddodd ddiweddariadau llafar:

- Pwynt Gweithredu Mawrth 01: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru i ystyried os/sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu manylion ynglŷn â pha fesurau amgen arfaethedig fydd yn cael eu derbyn, eu gwrthod neu eu hystyried ymhellach a pham.

- Dywedodd Andrew y byddwn yn ymgysylltu â'r grŵp ar y cynigion yn fras gan gynnwys y rhai a gynigiwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Byddwn hefyd yn gwneud hyn gyda'r cynigyddion eraill.

- Awgrymodd Rachel y dylid rhannu'r fethodoleg y mae Llywodraeth Cymru wedi'i defnyddio wrth ddod i'r penderfyniadau hynny. Dywedodd Andrew y byddai'n bwydo hynny yn ôl.

- Pwynt Gweithredu Mawrth 02: Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â manylion diffyg cydymffurfio a gyfeiriwyd atynt gan Lesley Griffiths yn yr Uwchgynhadledd Afonydd diweddar.

- Dywedodd Andrew ei fod yn deall bod hwn yn gyfeiriad cyffredinol tuag at ddiffyg cydymffurfio, er enghraifft digwyddiadau llygredd ffynhonnell benodol, diffyg cydymffurfio â'r llinell sylfaen reoleiddio sydd eisoes yn bodoli ac elfennau o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol drwy drawsgydymffurfio.

- Soniodd Rachel fod cam olaf y rheoliadau'n dod i rym o 1 Awst a bod hynny bellach yn cyd-fynd â rhywfaint o'r buddsoddiad y mae'r diwydiant wedi bod yn galw amdano. Fodd bynnag, be byddai'r cyllid hwn wedi dod yn gynt, gobeithio y

byddem wedi gweld pobl mewn sefyllfa llawer gwell i gydymffurfio o fewn amserlen y rheoliadau.

- Pwynt Gweithredu Mai 02: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru i roi mwy o eglurder ynghylch y broses Adolygu Maetholion, sut y caiff ei ddefnyddio yn yr adolygiad 4 blynedd, amserlenni ac a fydd cyfle i Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru fwydo i mewn i werthusiad o'r dystiolaeth a'r data.

- Dywedodd Andrew fod yr adolygiad yn cyflawni'r rhwymedigaethau o fewn y rheoliadau i asesu'r effeithiolrwydd. Mae'n rhan o'r gyfres o dystiolaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a lle ceir tystiolaeth ychwanegol yn ymwneud ag ansawdd dŵr a digwyddiadau llygredd, bydd hynny hefyd yn bwydo i'r adolygiad.

- Roedd Gareth yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda'r sefydliadau sydd wedi cyflwyno cynigion amgen ac awgrymodd y dylid amlinellu proses gam wrth gam rhwng nawr a mis Ebrill 2025. Trafododd y grŵp y pecyn tystiolaeth a ddarparwyd i randdeiliaid ymhell cyn yr Adolygiad a'r ymgynghoriad Nitradau diwethaf.

- Pwynt Gweithredu Mai 07: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru i roi eglurder ynghylch cysylltu gyda'r ffermwyr hynny nad ydynt yn gallu cydymffurfio ar ôl 1 Awst oherwydd rhesymau y tu hwnt i'w rheolaeth ac eglurder ynghylch sut y bydd Taliadau Gwledig Cymru yn eu trin o safbwynt traws-gydymffurfiaeth.

- Dywedodd Andrew fod hwn yn fater heriol. Ein cyngor i ffermwyr sy'n cael trafferth bodloni'r gofynion cyn i'r mesur hwnnw ddod i rym fyddai cysylltu â CNC. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda RIW ynghylch y mater traws-gydymffurfio oherwydd ein bod yn cydnabod bod hyn yn bryder arbennig lle mae ffermwr yn gwneud ei orau hollol ac mae ffactorau eraill yn ei rwystro rhag cydymffurfio. Rydym yn parhau â'r trafodaethau hynny a gobeithio y byddwn yn gallu rhoi'r diweddariad fis nesaf.

## Eitem 6. Unrhyw fater arall

79. Soniodd Gail am drafodaeth flaenorol gyda Rhys ynghylch diazinon a phwysigrwydd symud pethau ymlaen. Dywedodd Rhys y byddai'n siarad â'r Athro Steve Ormerod yn fuan i weld sut y gallwn gysylltu pethau.

80. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 15 Gorffennaf 2024.

81. Ni chodwyd unrhyw faterion ychwanegol.